**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 03-01(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 28 Chwefror 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 4.10pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| David Davies | Mynwy |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| *Swyddogion* | |
| Huw Brodie (eitemau 2 a 3) | Cyfarwyddwr, Yr Adran Amaethyddiaeth |
| Rory O’Sullivan | Yr Is-adran Polisi Amaethyddol |
| Tony Edwards | Y Prif Swyddog Milfeddygol |
| | |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Menna Williams | Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, cyfnewidiadau a datganiadau o fudd**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jocelyn Davies a Peter Rogers. Yr oedd Ieuan Wyn Jones yn dirprwyo dros Jocelyn Davies a David Davies dros Peter Rogers. Datganodd y Cadeirydd fod iddo fudd fel ffermwr a dywedodd Mick Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog** - ARD 03-01(p1)

2.1 Helaethodd y Gweinidog yngln â'i adroddiad ysgrifenedig gan dynnu sylw at y drafodaeth yngln â chlefyd y crafu a BSE yng Nghyngor Amaethyddiaeth yr UE. Yr oedd yr Almaen wedi codi pwnc clefyd y crafu yn y Cyngor ond nid oedd unrhyw aelod-wladwriaeth arall yn teimlo bod angen unrhyw weithredu brys. Yr oedd yr aelod-wladwriaethau wedi mynegi barn wahanol yngln â'r hyn y dylid ei wneud yngln â BSE.

2.2 Yng nghyswllt iawndal arian-amaeth dywedodd y Gweinidog y dylai oddeutu £22 miliwn fod ar gael yng Nghymru. O'r swm hwn, yr oedd oddeutu £20.5 miliwn yn orfodol i'w dalu gyda'r gweddill yn codi o ganfyddiadau ychwanegol a gynigwyd mewn perthynas â'r trefniadau cig eidion ac yn. Pwysleisiodd mai bwriad yr arian hwn oedd lleddfu effeithiau amrywiadau yng ngwerth y bunt, ac nid effeithiau clwy'r traed a'r genau.

2.3 Holwyd y Gweinidog yngln â'i gyfarfod gyda'r Bartneriaeth Wledig a chynhyrchu un ddogfen a fyddai'n cynnwys gweledigaeth ar gyfer Cymru wledig. Yn ei ateb dywedodd nad oedd y Bartneriaeth yn dymuno cynhyrchu dogfen hollgynhwysfawr. Yn hytrach, yr oedd am adolygu'r Datganiad Gwledig a luniwyd ganddi'n gynharach a gweithio ar ffyrdd o hybu gwell cydbwysedd oedran ym mhoblogaeth Cymru wledig.

2.4 Cafwyd trafodaeth helaeth wedyn ar yr achosion o glwy'r traed a'r genau.

2.5 Dywedodd y Gweinidog wrth y pwyllgor fod 3 achos o glwy'r traed a'r genau wedi eu cadarnhau yng Nghymru, un yn Felindre, un yng Nghastell Paen ac un yn y Gaerwen. Yr oedd un achos a fu dan amheuaeth ym Mhont-hir wedi ei gael yn glir ac yr oedd pedwar achos newydd dan amheuaeth, 2 yn Sir Faesyfed, 1 yn Aberhonddu ac 1 yn Nhorfaen.

2.6 Yr oedd parthau rheoli wedi eu sefydlu er mwyn atal yr achosion hyn rhag lledaenu a Gorchymyn wedi ei basio yn caniatáu i awdurdodau lleol gau darnau o dir. Pwysleisiodd y Gweinidog fod y Gorchymyn hwn wedi ei wneud yng Nghymru yn gyntaf a bod Lloegr a'r Alban wedi gwneud yr un peth wedyn. Y gobaith oedd y byddai modd cyflwyno system drwyddedu tua diwedd yr wythnos fel bod modd symud rhywfaint o anifeiliaid i ladd-dai.

2.7 Yn dilyn trafodaeth gyda Phrif Weinidog Cymru, y Gweinidog Chwaraeon a Llywodraeth Iwerddon,

cytunwyd y dylid gohirio'r gêm rygbi rhwng Cymru ac Iwerddon er mwyn lleihau'r perygl y byddai cefnogwyr yn lledaenu'r clefyd wrth deithio.

2.8 Byddai'r Gweinidog yn siarad â'r wasg bob diwrnod am 4.30pm. Apeliodd ar y cyfryngau i holi'r swyddogion yn gyntaf cyn cyhoeddi unrhyw storïau yngln ag achosion dan amheuaeth.

2.9 Wrth drafod y gwaharddiad ar symud a'r posibilrwydd o drwyddedau, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai penderfyniadau yngln â thrwyddedau yn cael eu gwneud ar sail Cymru a Lloegr a bod y Cynulliad yn trafod hyn gyda'r Weinyddiaeth Amaeth. Yr oedd yn cydnabod bod angen sicrhau bod y broses o roi trwyddedau i ladd-dai a ffermwyr mor syml ag a oedd yn bosibl ac nad oedd wedi ei chyfyngu i ddiwrnodau gwaith yn unig. Nid oedd y Gweinidog o blaid cyflwyno trwyddedau fel bod modd dychwelyd defaid tac a oedd ar dir arall gan fod perygl y byddai hyn yn lledaenu'r haint. Er bod goblygiadau yn gysylltiedig â hyn o safbwynt bwydo a lles anifeiliaid, y flaenoriaeth oedd cyfyngu ar ledaeniad y clefyd. Yr oedd y Gweinidog yn cydnabod y goblygiadau o safbwynt lles anifeiliaid oedd yn gysylltiedig ag achosion lle'r oedd ffermwyr yn methu â symud stoc oddi mewn i ffermydd gan fod ffordd ar eu daliad a chytunodd i drafod y mater gyda'r Weinyddiaeth Amaeth.

2.10 Gofynnwyd i'r Gweinidog geisio sicrhau bod yr oedi gyda'r taliadau buchod sugno yn dod i ben, a bod taliadau Tir Mynydd yn cael eu gwneud ar fyrder, er mwyn lleddfu problemau llif arian ffermwyr. Nododd y Pwyllgor fod 80% o'r ceisiadau buchod sugno wedi eu prosesu ar gyfer taliad erbyn hyn ac y gobeithid cynyddu'r ganran i 85% erbyn diwedd yr wythnos ganlynol. Nid oedd y Gweinidog yn rhagweld unrhyw oedi gyda thaliadau cyntaf Tir Mynydd a ddylai fod yn werth oddeutu £33 miliwn gyda'i gilydd ym Mawrth.

2.11 Pwysleisiodd aelodau'r Pwyllgor pa mor bwysig oedd darparu gwybodaeth yn gyflym, yn gywir ac yn rheolaidd i ffermwyr, lladd-dai a chyrff eraill a oedd â diddordeb. Gofynnwyd i'r Gweinidog ystyried anfon rhestr wirio yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol at bob ffermwr.

2.12 Mewn ymateb i hyn, pwysleisiodd y Gweinidog fod y gwaharddiad sydd mewn grym ar hyn o bryd yn golygu na ddylid symud da byw ar unrhyw gyfrif. Nid oedd yn bwriadu anfon llythyrau unigol at ffermwyr gan fod y sefyllfa'n newid yn gyflym a gallai gwybodaeth fod wedi dyddio erbyn iddi gyrraedd. Gallai anfon llythyrau i bob cwr o'r wlad hefyd ychwanegu at y perygl o ledaenu'r haint. Yr oedd gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo mewn sawl ffordd – trwy sesiynau briffio dyddiol gyda'r wasg ac undebau ffermio, cyfarwyddyd i amrediad eang o sefydliadau a chyrff cyhoeddus, swyddogion iechyd anifeiliaid, milfeddygon a llinell gymorth y Cynulliad. Cadarnhaodd y Gweinidog fod gan ei adran ddigon o adnoddau i staffio gwasanaeth y llinell gymorth, a oedd yn brysur ar adegau brig ond nid yn gyson. Cytunodd y byddai'n bwysig dosbarthu manylion yngln â chyhoeddiadau eraill yn ymwneud ag ymestyn y gwaharddiad ar symud a'r trefniadau trwyddedu yn eang ac yn gyflym.

2.13 Yr oedd llawer o gwestiynau'n cael eu gofyn yngln â'r goblygiadau i awdurdodau lleol. Pa gyfarwyddyd oedd wedi ei roi iddynt yngln â materion ymarferol megis atal mynediad i lwybrau cerdded a darnau o dir, yr effaith ar ysgolion a gwasanaethau eraill awdurdodau lleol a pha briffyrdd yn

union yr oedd y cyfyngiadau symud yn berthnasol iddynt? Gofynnwyd hefyd i’r Gweinidog a oedd cyfarwyddyd wedi ei roi i gwmnïau cyfleustodau cyhoeddus fel Dr Cymru ac a ellid egluro hawliau awdurdodau lleol wrth ddelio gydag anifeiliaid a oedd wedi crwydro.

2.14 Cadarnhaodd y Gweinidog fod y Gorchymyn yn caniatáu i awdurdodau lleol gau ardaloedd ac eithrio ffyrdd sy’n agored i draffig. Ei fwriad oedd caniatáu i awdurdodau lleol gyfyngu cymaint ag y gellid. Gallai swyddogion roi mwy o fanylion yngln â’r ffyrdd yr oedd y Gorchymyn yn ymdrin â hwy pe bai angen. Yr oedd Powys, Sir Gâr ac Ynys Môn wedi gweithredu’r Gorchymyn yn barod, a gallai unrhyw un a fyddai’n torri’r Gorchymyn wynebu cosb o hyd at £5,000. Yr oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi dweud nad oedd ar lywodraeth leol angen cyngor penodol, ac o ganlyniad, yr un dulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd gydag awdurdodau a chyrff perthnasol eraill. Yr oedd cyfarwyddyd ysgrifenedig wedi ei ddosbarthu i amrediad eang o gyrff cyhoeddus ac eraill (gan gynnwys y cwmnïau cyfleustodau), ac yr oedd y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yn cyfarfod cynrychiolwyr awdurdodau lleol i gynnig cyngor. Yr oedd gan lawer o awdurdodau lleol eu cynlluniau wrth gefn eu hunain ar gyfer clwy’r traed a’r genau. Cadarnhawyd bod gan awdurdodau lleol hawl i ddal anifeiliaid a oedd wedi crwydro.

2.15 Gofynnwyd i’r Gweinidog sut yr oedd yr ardaloedd a oedd yn rhan o barthau gwahardd wedi eu nodi a pham nad oedd parth Môn yn cynnwys yr ynys gyfan. Eglurodd y Prif Swyddog Milfeddygol mai’r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol oedd yn gyfrifol am hyn. Yr oedd angen parth 10 cilomedr o amgylch llefydd heintiedig er bod ffiniau naturiol yn cael eu hystyried hefyd er mwyn gwneud y parthau’n haws i’w deall. O ystyried y cyfyngiadau symud ar ardal o faint Ynys Môn, cytunodd i drafod diffiniad y parth gyda’r Prif Swyddog Milfeddygol a gofyn a ellid ei ymestyn i gynnwys pob rhan o’r ynys.

2.16 Mewn ymateb i gwestiwn yngln â phrinder diheintyddion addas mewn rhai ardaloedd, nododd y Pwyllgor fod llawer mwy yn mynd i gael ei gynhyrchu. Dylai’r cyflenwad ychwanegol hwn gyrraedd yn gyflym er mwyn osgoi unrhyw brinder. Yr oedd y rhestr o ddiheintyddion cymeradwyedig hefyd yn cael ei hymestyn. Nid oedd diheintyddion ar gael am ddim ar hyn o bryd. O ystyried y problemau a gofnodwyd gyda cherbydau yn difrodi matiau diheintio ar y pontydd i Ynys Môn trwy yrru’n rhy gyflym, cadarnhaodd y Gweinidog fod gan y Cynulliad a Heddlu Gogledd Cymru hawl i orfodi cyfyngiadau cyflymder dros dro.

2.17 Holwyd y Gweinidog yngln â goblygiadau’r clefyd yng nghyswllt danfon porthiant a gweithredu’r Cynllun Dros Ddeng Mis ar Hugain. Yn ei ateb dywedodd fod angen rhoi sylw i’r ddau fater ar lefel y DG a’i fod wedi eu trafod yn barod gyda Nick Brown. Nid oedd wedi clywed am unrhyw achosion o brynu porthiant mewn panig a byddai’n anfon cyfarwyddyd yngln â danfon bwydydd at gyflenwyr. Yr oedd hefyd yn bosibl cael trwyddedau i ganiatáu danfon bwydydd mewn argyfwng. Yr oedd y Weinyddiaeth Amaeth yn ymwybodol o’r problemau yr oedd ffermwyr yn eu hwynebu gyda stoc yn cyrraedd 30 mis. Yr oedd y Gweinidog yn gobeithio y gellid gweithredu’r cynllun mor hyblyg ag a oedd yn bosibl.

2.18 Mewn ymateb i gwestiwn yngln â’r amser a gymerid i ladd anifeiliaid ar safleoedd heintiedig, nododd y pwyllgor fod anifeiliaid heintiedig yn cael eu lladd ar unwaith ac anifeiliaid eraill cyn gynted ag y gellid. Eglurodd y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol fod defaid yn cario llai o firws na gwartheg neu foch, felly nid oedd yr oedi cyn lladd defaid yn y Gaerwen wedi golygu llawer o risg ychwanegol.

2.19 Holwyd y Gweinidog yngln â chasglu llaeth mewn ardaloedd heintiedig a hefyd yngln ag oriau gwaith ar gyfer gyrwyr tanceri yr oedd yn ofynnol iddynt ddiheintio eu cerbydau. Nododd y Pwyllgor fod modd cario llaeth wedi ei gynhyrchu mewn ardaloedd cyfyngedig ond dim ond gyda thrwydded (ond gweler y nodyn yn Atodiad 1). Yr oedd cais wedi ei wneud i Adran yr Amgylchedd ystyried llacio’r rheolau a oedd yn ymwneud ag oriau gwaith gyrwyr er mwyn caniatáu amser i ddiheintio cerbydau a chwblhau teithiau casglu.

2.20 Pan holwyd y Gweinidog yngln â chyfarwyddyd yn ymwneud â chwalu slyri, cadarnhaodd y Gweinidog fod gwaharddiad ar chwalu slyri ar ffermydd lle’r oedd y clefyd wedi ei gadarnhau neu lle’r oedd dan amheuaeth.

2.21 Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn dal yn bosibl olrhain pob achos newydd yn ôl i’r achos gwreiddiol ac eithrio’r achos yn Felindre lle nad oedd unrhyw gysylltiad wedi ei sefydlu eto.

2.22 Nododd y pwyllgor fod rôl brechu rhag clwy’r traed a’r genau yn gyfyngedig. Yr oedd statws rhydd o glwy’r traed a’r genau o fudd i allforwyr a byddai rhaglen frechu’n golygu colli’r statws hwn. Gan fod y clefyd i’w gael mewn mwy nag un ffurf, a chan nad oedd brechiad rhag un ffurf yn cynnig amddiffyniad rhag un arall, yr oedd manteision rhaglen frechu yn gyfyngedig pan nad oedd y firws yn endemig.

2.23 I gloi, diolchodd y pwyllgor i’r Gweinidog am ei gyfraniad i’r cyfarfod ac am sicrhau bod Aelodau’r Cynulliad yn cael digon o wybodaeth. Dywedodd y byddai’n ystyried yr angen i wneud mwy o ddatganiadau i’r Cynulliad wrth i’r sefyllfa ddatblygu.

**Eitem 3: Adroddiad Cloriannu Tir Gofal** - ARD 03-01(p2)

Nododd y pwyllgor gylch gorchwyl adroddiad cloriannu Tir Gofal.

**Eitem 4: Adolygiad Arallgyfeirio** - ARD 03-01(p4)

Cymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiad interim drafft.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod blaenorol -** ARD 02-01(min)

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

**Yr Ysgrifenyddiaeth** **Mawrth 2001**

---

Atodiad 1

**Clwy'r Traed a'r Genau: Symud llaeth**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor, dywedais y gallai llaeth adael ardal a heintiwyd o dan drwydded. Gydag ymddiheuriadau am gamarwain y Pwyllgor, ar ôl gwirio hyn, darganfyddais y gall llaeth adael ardal a heintiwyd heb drwydded, ond rhaid cymryd nifer o gamau er mwyn rhwystro unrhyw haint rhag lledaenu. Manylir ar y camau hyn yn y ddogfen 'Code of Practice for Hauliers and Buyers of Milk', sydd ar gael ar wefan MAFF.

**W A Edwards**

**Prif Swyddog Milfeddygol y Cynulliad**